



Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Arholiad Aelodaeth Sylfaenol 12 Ebrill 2008
Papur 1: Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Adroddiad y Prif Arholwr

Diolch i'r arholwyr am eu sylwadau manwl yn nodi'r llwyddiannau a'r anawsterau a gafodd yr ymgeiswyr. Diolch i staff y swyddfa am eu trefniadaeth effeithiol arferol ac am bob cefnogaeth.

Safon Aelodaeth Sylfaenol

Mae Aelodaeth Sylfaenol yn cyfateb i waith a wneir dan oruchwyliaeth ar lefel broffesiynol sylfaenol. Disgwylir i'r ymgeisydd gynhyrchu gwaith cywir, addas a graenus o fewn terfynau amser.

Nifer yr ymgeiswyr: 30

Llwyddo: 16

Methu: 14

Gosodwyd dau ddarn o ryw 250 o eiriau yr un a oedd yn ceisio adlewyrchu cyweiriau lled wahanol. Disgrifiai'r naill ddarn ymweliad ag un o safleoedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru ac roedd y llall yn ymwneud â gwaith gwirfoddol yn y gymuned.

Cafwyd nifer o ymgeiswyr addawol iawn a gresyn nad oes modd sicrhau y byddant, ar gychwyn eu gyrfa yn y proffesiwn, yn cael eu goruchwyllo'n ofalus a'u cynorthwyo i feithrin arferion da. Yn achos nifer o'r ymgeiswyr a oedd o fewn trwch blewyn i lwyddo, mae'r nod o fewn cyrraedd iddynt. Dim ond dau ymgeisydd a oedd yn wirioneddol wan.

Heb gyfleu grym y testun gwreiddiol ac ymadroddi cloff

Roedd tuedd i rai ymgeiswyr ddibynnu'n ormodol ar Cysgair am awgrymiadau pan fyddai gair neu ymadrodd yn peri trafferth. Enghreifftiau amlwg o hynny oedd 'on and off' a 'refreshing' yn y darn cyntaf, lle roedd cynigion yr ymgeiswyr a oedd wedi defnyddio'u dychymyg a'u synnwyr cyffredin yn rhagori o gryn dipyn ar yr awgrymiadau a dderbyniwyd yn hollol anfeirniadol gan Cysgair, awgrymiadau nad oeddent yn gweddu o gwbl i'r cyd-destun.

Roedd tuedd i beidio â darllen y gwaith yn ddigon gofalus cyn ei gyflwyno, ac o ganlyniad, cafwyd enghreifftiau o gyfieithu'n rhy fras, neu o newid ystyr y gwreiddiol. Collwyd cydymdeimlad yr arholwyr yn ddiangen wrth hepgor geiriau, ymadroddion, neu hyd yn oed frawddegau cyfan. Ni ellir gorbwysleisio

pwysigrwydd darllen y gwaith sawl tro cyn ei gyflwyno, nid ochr yn ochr â'r Saesneg yn unig, ond dylid hefyd ei ystyried fel darn o ysgrifennu Cymraeg gwreiddiol.

Geirfa a chystrawen anaddas ac annigonol

Roedd nifer fawr o ymgeiswyr wedi'u llorio'n lân gan yr ymadroddion canlynol: *the memory of men who had mined for gold in that Welsh hillside on and off for maybe 2000 years ac enthusiastic young students who really seem to want you to have a good day.* Roedd cystrawennu ansafonol wedi baglu rhai ymgeiswyr: "gofyn cwestiynau i'ch hunan".

Atalnodi

Mae'r darn gwreiddiol yn aml yn ddiffygiol ei atalnodi, ond ychydig o ymdrech a wneir gan ymgeiswyr i atalnodi'r cyfieithiad yn briodol: "Mae'n lle da i archeolegwyr diwydiannol wrth gwrs ond i'r rhai ohonom.....".

Penderfynwyd y dylid cael barn Canolwr ar waith 2 ymgeisydd. Barn y canolwr oedd bod gwaith y ddau ymgeisydd yn dangos addewid a 'gallu da'.

Prif Arholwr (o'r Saesneg i'r Gymraeg) Mehafin 2008